Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Licswm
Ffordd Gledlom
Licswm
Treffynnon
Sir y Fflint
CH8 8NF

21/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr â Ffederasiwn Bryniau Clwyd, gan gynnwys Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Licswm yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu capasiti arwain ymhellach ar draws y ffederasiwn trwy rannu arfer effeithiol a gwella gallu staff i fonitro a gwerthuso'r gwahaniaeth a wna addysgu i ddysgu a chynnydd disgyblion

- Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ffederasiwn wedi wynebu cyfnod o gythrwfl hirfaith. Mae hyn wedi arwain at ansefydlogrwydd ymhlith y staff addysgu a'r uwch dîm arweinyddiaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, mae staff ar draws y ddwy ysgol wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod ansawdd yr addysgu a'r dysgu wedi aros yn effeithiol.
- Ar hyn o bryd, caiff y ffederasiwn ei arwain gan bennaeth dros dro sydd wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr. Mae wedi cefnogi ethos gwaith tîm a chydweithio ar draws yr ysgolion yn dda, gan arwain at barodrwydd parhaus gan staff i weithio gyda'i gilydd.
- Mae'r pennaeth dros dro wedi dechrau gweithio gyda'r awdurdod lleol i fonitro effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn wedi cynnwys teithiau dysgu a

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

chraffu ar waith disgyblion. Mae’r gwerthusiadau dilynol yn nodi cryfderau trosfwaol a meysydd i’w datblygu ar draws pob ysgol yn gywir.

- Mewn ychydig o achosion, mae athrawon wedi gweithio ar draws y ffederasiwn i fonitro darpariaeth a chynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent wedi sefydlu darlun clir o ba mor dda mae medrau digidol disgyblion yn datblygu ac wedi nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn y dyfodol yn llwyddiannus. Mae’r gwaith hwn wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau mewn darpariaeth ac wedi sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn y maes hwn.
- Mae mwy o gydweithio ar draws yr ysgolion wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol fel cryfhau darpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant a darpariaeth ar gyfer dysgu sylfaen.
- Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen mireinio prosesau hunanwerthuso ymhellach fel eu bod yn rhoi ffocws craffach ar werthuso ansawdd agweddau penodol ar addysgu a dysgu.
- Mae arweinwyr yn dod â staff at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau hyfforddi fel diogelu a rheoli ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol sy’n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu wedi cael eu rhwystro gan newidiadau mynych i arweinyddiaeth.
- Nid yw rolau a chyfrifoldebau arwain yn glir bob amser. Mae hyn yn atal capasiti’r ffederasiwn i wneud gwelliannau cynaledig ar draws ehangder ei ddarpariaeth.
- Ar hyn o bryd, nid yw’r ffederasiwn yn bodloni’r cyfnodau amser gofynnol sy’n ymwneud ag adolygu perfformiad pob un o’r staff addysgu.

## Gwella darpariaeth ymhellach i gefnogi datblygiad ystod lawn medrau darllen, rhifedd a digidol disgyblion

- Mae staff wedi gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol, o fewn yr ysgol ac ar draws y ffederasiwn, i wneud gwelliannau i ddarpariaeth ar gyfer medrau darllen, rhifedd a digidol disgyblion.
- Mae disgyblion iau yn defnyddio offer digidol yn llwyddiannus i greu delweddau a diagramau sy’n cefnogi eu gwaith ac yn adlewyrchu eu dysgu. Maent yn defnyddio cymwysiadau ffotograffiaeth i gofnodi gweithgareddau, a dyfeisiau rhaglenadwy i ddatblygu medrau rheolaeth gynnar.
- Mewn dosbarthiadau hŷn, mae bron pob un o’r disgyblion yn caffael ystod eang o fedrau digidol cryf, yn cynnwys codio, cyflwyno, cronfa ddata a defnyddio taenlenni. Maent yn cymhwyso ac yn cyfuno’r rhain yn annibynnol i gefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm.
- Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn mathemateg. Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais clir ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o rif. Mae hyn yn

helpu llawer o ddisgyblion i feithrin medrau cadarn a'u cymhwyso'n hyderus i ddatrys problemau.

- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm ar lefel debyg i wersi mathemateg dynodedig. Maent yn dangos ystod eang o fedrau effeithiol wrth drin data yn eu gwaith testun, fel creu graffiau llinell i gefnogi eu dysgu mewn gwyddoniaeth.
- Mae'r ysgol yn defnyddio cynllun cyhoeddedig gyda gweithgareddau atodol i sicrhau ymdriniaeth lawn â'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng addysgu medrau rhif a gwybodaeth a dealltwriaeth fathemategol ehangach, fel archwilio siâp, gofod a mesur ymhellach.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn cefnogi medrau darllen disgyblion yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau defnyddiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd â hyder.
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu brwdfrydedd am ddarllen ac yn siarad yn huawdl am hoff awduron, llyfrau a genres.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: [Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Licswm - Estyn]

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol